# Pleidleisiau a Thrafodion ar gyfer dydd Mercher, 1 Hydref 2003

**Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm**

**2.00pm**
**Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**
Atebwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. (ni ofynnwyd cwestiwn 2)

**2.23pm**
**Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**
Atebwyd yr 8 cwestiwn cyntaf.

**2.45pm**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg: Y Celfyddydau y tu allan i Gaerdydd**

**3.16pm**
***Ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn. Byddwn yn awr yn pleidleisio arno.***
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 22.25**
**Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 12) (Cymru) 2003**
***NDM1628 Karen Sinclair (De Clwyd)***

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Medi 2003, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 12) (Cymru) 2003; ac

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 12) (Cymru) 2003 yn cael ei wneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Medi 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig**
O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Cymeradwywyd y Cynnig**

**3.17pm**
***Trafodwyd y 2 gynnig canlynol gyda'i gilydd a chynhaliwyd pleidlais ar wahan ar y***

***diwedd***

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) 2003**

*NDM1629 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) 2003, y cyflwynwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Medi 2003

**3.36pm**

**Pwynt o Drefn - Rhodri Glyn Thomas**

**3.38pm**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**

O blaid 39; Ymatal 0; Yn erbyn 17; Cyfanswm 56

**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1630 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Medi 2003, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) 2003; ac

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) 2003 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Medi 2003.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol i'r Gorchymyn drafft:**

**Gwelliant 1**

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

**Mike German (Dwyrain De Cymru)**

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn)**

Yn Atodlen 2, paragraff 4, dileu gweddill y paragraff ar ôl "neu'r swydd honno i ben".

*Mae'r datganiad canlynol wedi'i gyflwyno o dan Reol Sefydlog 22 (ii) mewn cysylltiad â'r gwelliant uchod er mwyn esbonio ei ddiben a'i oblygiadau o ran cost*

Diben

Byddai'r gwelliant arfaethedig yn lleihau'r potensial i unigolyn a oedd wedi'i ddiswyddo am ymddygiad afresymol gam-ddefnyddio'r sail 'nad yw'n rhesymol ymarferol' i gael prawf o'r rheswm y daeth ei gyflogaeth i ben. Teimlwyd y byddai'r gwelliant hwn yn ffordd ychwanegol o ddiogelu plant neu bobl sy'n agored i niwed.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y gwelliant arfaethedig gyda 7 pleidlais yn erbyn 3.

Costau

Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol.

**Gwelliant 2**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
**Mike German (Dwyrain De Cymru)**
**Mick Bates (Sir Drefaldwyn)**

Yn Atodlen 3, paragraff 4 - dileu gweddill y paragraff ar ôl "neu'r swydd honno i ben".

*Mae'r datganiad canlynol wedi'i gyflwyno o dan Reol Sefydlog 22 (ii) mewn cysylltiad â'r gwelliant uchod er mwyn esbonio ei ddiben a'i oblygiadau o ran cost*

Diben

Byddai'r gwelliant arfaethedig yn lleihau'r potensial i unigolyn a oedd wedi'i ddiswyddo am ymddygiad afresymol gam-ddefnyddio'r sail 'nad yw'n rhesymol ymarferol' i gael prawf o'r rheswm y daeth ei gyflogaeth i ben. Teimlwyd y byddai'r gwelliant hwn yn ffordd ychwanegol o ddiogelu plant neu bobl sy'n agored i niwed.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y gwelliant arfaethedig gyda 7 pleidlais yn erbyn 3.

Costau

Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 2**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 56; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 56
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**Cynnig i gymeradwyo Safonau Gofynnol Cenedlaethol Asiantaethau Nyrsys**
*NDM1626 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Safonau Gofynnol Cenedlaethol yr Asiantaethau Nyrsys, y cyflwynwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Medi 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 56; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 56

**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1627 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 27.2 (iii), yn cymeradwyo Safonau Gofynnol Cenedlaethol yr Asiantaethau Nyrsys, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Medi 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 9; Cyfanswm 56
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**3.43pm**
***Trafodwyd y 2 gynnig canlynol a chynhaliwyd pleidlais ar wahan ar y diwedd***

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 (Gorchymyn Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2003**
*NDM1631 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Medi 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1632 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Medi 2003, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2003; ac

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2003 yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Medi 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54

**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Cyfnodau Rhagnodedig ar gyfer Strategaethau a Chynlluniau Hygyrchedd ar gyfer Ysgolion) (Cymru) 2003**
*NDM1633 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Cyfnodau Rhagnodedig ar gyfer Strategaethau a Chynlluniau Hygyrchedd ar gyfer Ysgolion) (Cymru) 2003, y cyflwynwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Medi 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1634 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Medi 2003, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Cyfnodau Rhagnodedig ar gyfer Strategaethau a Chynlluniau Hygyrchedd ar gyfer Ysgolion) (Cymru) 2003; ac

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Cyfnodau Rhagnodedig ar gyfer Strategaethau a Chynlluniau Hygyrchedd ar gyfer Ysgolion) (Cymru) 2003 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Medi 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**4.07pm**
**Dadl ar Gostau Presgripsiwn**
*NDM1625 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cadarnhau bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gael gwared ar daliadau presgripsiwn yng Nghymru yn ystod oes y Cynulliad hwn.

2. Yn cytuno bod y cynnig hwn yn cwmpasu'r ymrwymiadau'n deillio o gynnig NDM1283 a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 4 Chwefror 2003, ac yn mynd â hwy ymhellach.

**Cyflwynwyd y Gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt 1, dileu 'Yn cadarnhau' ac yn ei le rhoi 'Yn nodi'.

**Gwelliant 2**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 2 ac ychwanegu ar ddiwedd pwynt 1;

'ac yn ailadrodd penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol ar 4 Chwefror 2003 (NDM 1283) a oedd yn cyfarwyddo'r Gweinidog i ddwyn deddfwriaeth gerbron, yn ddi-oed, a fyddai'n eithrio

pob claf sy'n dioddef o salwch cronig rhag taliadau presgripsiwn sy'n aml yn arwain at galedi ariannol annerbyniol ac sydd, mewn sawl achos, yn arwain at ddirywiad yn eu cyflwr.'

**Gwelliant 3**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu pwynt 2 a rhoi'r pwynt a ganlyn yn ei le:

2. Yn cytuno, fel cam cyntaf, i barchu'r ymrwymiadau sy'n deillio o gynnig NDM1283 i ddiddymu taliadau presgripsiwn i'r rhai sy'n dioddef o gyflyrau cronig gydol oes sy'n galw am feddygyniaeth reolaidd.

3. Yn gresynu at fethiant y Gweinidog Llafur dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddwyn gerbron is-ddeddfwriaeth ddrafft er mwyn cyflawni ewyllys y Cynulliad fel y'i fynegwyd yn NDM1283 ac yn unol â'r hyn sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 29.

**Gwelliant 4**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y byddai'n well defnyddio'r adnoddau hyn i dargedu grwpiau penodol o gleifion ac i ganolbwyntio ar flaenoriaethau eraill.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 23; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 44; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig**
O blaid 30; Ymatal 9; Yn erbyn 16; Cyfanswm 55

**Derbyniwyd y Cynnig**

**5.07pm**
**Dadl fer - NDM1624 Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth); Gwisgwch Binc - Trechwn Ganser y Fron**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.35pm**

******************

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a Osodwyd ar 25 Medi 2003**

- Cyfrifon Swyddfa Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru 2001-02 - LD2280
- Cyfrifon Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd dros Gymru 2001-02 - LD2281
- Rheoliadau Bwyd (Tsilis Poeth a Chynhyrchion Tsilis Poeth) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2003 - LD2282
- Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon a Safonau Iechyd) (Diwygiad Rhif 2) (Cymru) - LD2283
- Gorchymyn Clwy Clasurol y Moch (Cymru) 2003 - LD2284
- Rheoliadau (Gwybodaeth am Ddisgyblion Ôl-16 Unigol) (Cymru) 2003 - LD2285